



Improving Social Care in Wales
Gwella Gofal Cymdeithasol yng Nghymru

The Social Services and Well-being (Wales) Act 2014
Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Creating Change: An E-Resource Guide to the changes required by the Act
Creu Newid: E-Ganllaw i'r newidiadau sy'n ofynnol o dan y Ddeddf

ENGLISH ▶

CYMRAEG ▶

www.ssiacymru.org.uk



Leading Social Services
in Wales
Yn arwain
Gwasanaethau Cymdeithasol
yng Nghymru



Cynnwys

| | |
|---|----------------|
| Rhagymadrodd a'r Weledigaeth ar gyfer y Ddeddf | 3 - 4 |
| Y Diben a'r Gynulleidfa | 5 |
| Cefndir Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) | 6 |
| Rhestr o'r Prif Sefydliadau/Rhanddeiliaid (sy'n Ymwneud â'r Ddeddf ac y mae ei huchelgais yn Effeithio Arnynt) a drafodir yn yr adnodd hwn | 7 |
| Cynrychiolwyr Etholedig | 8 |
| Y Cyngor a chomisiynwyr y GIG | 9 |
| Defnyddwyr/gofalwyr ac Eiriolaeth | 10 |
| Safbwyt y Defnyddiwr a'r Gofalwr | 11 - 14 |
| Gweithwyr Iechyd Proffesiynol | 15 |
| Darparwyr Gofal Cymdeithasol | 16 |
| Darparwyr Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth | 17 - 18 |
| Cymunedau a Chymdogaethau | 19 |
| Gofal cymdeithasol a ariennir gan gynghorau | 20 |
| Arolygwyr a Rheoleiddwyr | 21 |

Rhagymadrodd

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) wedi darparu fframwaith cyfreithiol newydd ar gyfer gofal cymdeithasol yng Nghymru. Ei nod yw gosod fframwaith i awdurdodau lleol ac iechyd ymgysylltu â dinasyddion a'u grymuso, i'w helpu i gyflawni annibyniaeth a llesiant, a lle bo angen, i gael gafael ar y cymorth mae arnynt ei angen.

Mae'r bobl sydd angen y cymorth hwn a'u gofalwyr yn lleisio galwad y dylai fod ganddynt gymaint o reolaeth â phosibl dros eu bywydau a'r gefnogaeth mae arnynt ei hangen i uchafu eu hannibyniaeth.

Er mwyn cefnogi awdurdodau lleol, awdurdodau iechyd a phartneriaid allweddol i ddeall beth fydd dyletswyddau newydd y Ddeddf yn ei olygu'n ymarferol, mae Asiantaeth Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol wedi llunio adnodd byw ar gyfer aelodau etholedig a swyddogion sy'n gyfrifol am roi newidiadau ar waith.

Mae'r adnodd hwn:

- yn disgrifio'r weledigaeth newydd tu ôl i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)
- yn disgrifio'r ymddygiadau mae eu hangen ar draws y system gyfan i wireddu'r weledigaeth honno
- yn gwneud hyn mewn ffordd a fyddai'n caniatáu i arweinwyr sector gynllunio'r camau mae angen eu cymryd i sefydlu'r ymddygiadau hynny

Bydd yr e-adnodd yn datblygu dros amser ac yn adlewyrchu trafodaethau â chydweithwyr ym maes llywodraeth leol am eu hanghenion parhaus o ran gwybodaeth.

Y ‘Weledigaeth’ ar gyfer y Ddeddf

Nodweddion amlycaf y ‘Weledigaeth’ newydd hon, sy’n wahanol iawn i arferion yr 20 mlynedd diwethaf, ac sy’n nodi ymagwedd newydd i Gymru, yw;

- bydd gan y dinesydd gymaint o reolaeth â phosibl, drwy ganolbwytio ar yr unigolyn, a hoelio sylw ar y canlyniadau mae pob unigolyn yn dymuno eu cyflawni
- ymddiddori cymaint yn y cryfderau a’r gallu sydd gan bob unigolyn ag yn ei anghenion o ran gofal a chymorth
- mae rhoi i bobl yr wybodaeth, y cyngor a’r cymorth mae arnynt eu hangen, mewn ffordd y gallant eu defnyddio (gan gynnwys manteisio ar atebion technolegol) yn allweddol i’w helpu i wneud dewisiadau da am eu taith eu hunain tuag at lesiant
- ar bob adeg, uchafu annibyniaeth unigolion a’u cysylltu â’u cymunedau, gan leihau neu ohirio eu dibyniaeth ar ofal cymdeithasol ac ymyriadau

iechyd drwy ddefnyddio pethau fel tele-ofal/tele-iechyd a rhaglenni ail-alluogi

- sicrhau bod unigolyn yn derbyn y gefnogaeth ychwanegol mae arno ei hangen, lle na all gyflawni ei ganlyniadau o ran llesiant fel arall
- pan fydd angen cefnogaeth ychwanegol ar rywun, osgoi dyblygu prosesau asesu, er mwyn i’r cymorth cywir gael ei dderbyn y tro cyntaf
- lleihau biwrocratiaeth a llenwi ffurflen, a chadw pethau’n syml, a hynny i wella profiad pob unigolyn ac i wneud y defnydd gorau ar adnoddau prin.

Cydnabyddiaeth

Mewn manau ledled Cymru, dan arweiniad gwasanaethau cymdeithasol o fewn awdurdodau lleol, mae camau cadarn eisoes wedi cael eu cymryd tuag at y weledigaeth newydd hon ac rydym wedi manteisio ar y profiad hwnnw’n helaeth wrth greu’r ddogfen hon.

Y Diben a'r Gynulleidfa

Wrth wireddu'r weledigaeth, mae llawer o waith i'w wneud wrth gefnogi awdurdodau lleol a'u cydweithwyr i roi'r Ddeddf ar waith, yn llawn erbyn 2016. Byddai pawb yn cytuno, serch hynny, fod gennym grym ffordd i'w theithio o hyd tuag at y Weledigaeth. Mae'n hanfodol ein bod i gyd yn rhannu'r uchelgeisiau ac yn deall pa newidiadau sy'n ofynnol gennym ni. Ein gobaith yw y bydd yr e-adnodd hwn yn cyfrannu at hynny.

Bydd yr e-adnodd hwn:-

- yn esbonio cyd-destun a hanes agwedd hon y Ddeddf bwysig hon, sy'n ddefnydd cynnar iawn ar bwerau deddfu newydd Llywodraeth Cymru, ac yn ceisio uno deddfau amrywiol a dryslyd blaenorol mewn perthynas â swyddogaethau gofal cymdeithasol mewn un Ddeddf gydlynol (uchod)
- yn amlygu'r rhannau mae'n rhaid i amrediad o gyrff a phobl eu chwarae er mwyn i'r ymagwedd hon gyflawni ei photensial llawn

- yn gadael i chi ddethol yr adrannau priodol yn ôl yr angen. Maent wedi eu hysgrifennu i'ch galluogi i wneud hyn ac fel y cyfryw, fe welwch lawer o'r pwyntiau allweddol yn cael eu hailadrodd
- yn dangos o safbwyt y defnyddiwr/gofalwr, yn ogystal â rhai o'r cyrff sy'n eu cynrychioli, sut y bydd yr ymagwedd newydd hon yn effeithio ar fywydau pobl go iawn - pa wahaniaeth y bydd yn ei wneud
- bod ar gyfer byd llywodraeth leol yn bennaf, er y gallai'r negeseuon fod o werth i'r partneriaid bwysig (arweinyddion fydd yn rhoi'r newidiadau ar waith yn y GIG, arweinyddion eirioli, mudiadau gwirfoddolwyr a defnyddwyr, a chylchoedd cynhalwyr).

Cefndir Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)

Cydnabyddir yn eang bod yn rhaid i wasanaethau cyhoeddus aros yn ymatebol i anghenion newidiol y dinasyddion maent yn eu gwasanaethu. Yng Nghymru mae'n amlwg ers tro byd bod ein demograffeg unigryw yn creu set o heriau sylweddol i wasanaethau gofal cyhoeddus. Mae'r rhain yn cynnwys materion fel niferoedd cynyddol o bobl oedrannus yn byw yn hwy, nifer y plant sy'n derbyn gofal a phlant mewn angen, pwysau economaidd ar gyllidebau teuluoedd unigol a sefydliadau a newidiadau i batrwm darparu gwasanaethau.

Yng Nghymru, rhoddodd y bleidlais 'le' gryf yn y refferendwm ar bwerau deddfu sylfaenol (2011) y gallu i Lywodraeth Cymru ddeddfu yng Nghymru am y tro cyntaf ac, wrth gydnabod y pwysau sylweddol ar wasanaethau cymdeithasol, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i ddeddfu.

Cynigiodd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), o ganlyniad i hynny, Iwybr i Lywodraeth Cymru ad-drefnu sut dylai cefnogaeth i bobl ag angen gofal/cymorth gael ei darparu. Harneisiodd gysyniadau, eang eu cefnogaeth, am lesiant gwell, trwy wybodaeth, cyngor a chymorth, a chydabod mai dim ond drwy ymagweddau ataliol, a mynd ati'n gyd-gynhyrchiol i ymwneud â phobl, y

gallai gwasanaethau ddod yn fwy effeithiol a chynaliadwy at y dyfodol.

Y Ddeddf ei hun yw'r darn cyntaf o ddeddfwriaeth i Gymru yn unig ym maes Gofal Cymdeithasol. Mae'n cyfuno dyletswyddau blaenorol yn un fframwaith unigol a chydlynus, gan ymgorffori hefyd amrediad o ddyletswyddau newydd a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth cyhoeddus ehangach, dan arweiniad Cyngorau:

- Flaenoriaethu llesiant gwell dinasyddion a mwy o fynediad i gymorth
- Gweithio mewn partneriaeth ar draws ffiniau gwasanaethau
- Rhoi amddiffyniad cyfreithiol i oedolion hawdd eu niweidio
- Lleihau hen systemau biwrocrataidd o ran asesu

Mae'r Ddeddf yn nodi newid arwyddocaol i'r gyfraith gwasanaethau cymdeithasol, a darpariaeth gwasanaethau. Wrth sicrhau gwreddu nodau'r Ddeddf i wella llesiant, mae'n bwysig sefydlu a mabwysiadu meddylfryd cyffredin, ymhliith y sawl sy'n arwain darpariaeth. Mae'r Ddeddf hon yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth cyhoeddus ehangach ymgysylltu, o Gyngorau i lechyd, i'r Heddlu, a hefyd yn mynnu cyfranogiad a chydweithrediad y sector annibynnol a gwirfoddol. Mae'r Ddeddf yn cydnabod yn briodol y rôl arwain sydd gan wasanaethau cymdeithasol wrth arwain newid, ond mae'n galw am ymagwedd bartneriaeth gryf i sicrhau bod llesiant yn fusnes pob gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru, o ganlyniad i'r ddeddfwriaeth flaengar hon.

Prif Sefydliadau / Rhanddeiliaid sy'n Ymwneud â'r Ddeddf ac y mae ei huchelgais yn Effeithio Arnynt

Mae'n bwysig cydnabod, wrth ddefnyddio'r ddogfen hon, y bydd rhai sefydliadau o bosibl yn dod o fewn mwy nag un categori.

Yn ysbryd y ddeddfwriaeth newydd, mae popeth sy'n dilyn yn cyfeirio gymaint at ofalwyr ag at y sawl maent yn gofalu amdanynt.

Yn yr un modd, dylai pob rhanddeiliad ymgymryd i gyfeirio at eiriolwr addas pan fyddant o'r farn efallai na fydd unigolyn yn gallu lleisio ei ddymuniadau a/neu gyflawni ei hawliau fel arall.

Mae pob un o'r opsiynau isod yn nodi sut y gallai rhanddeiliaid a sefydliadau allweddol ymwneud â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) a sut mae'n effeithio arnynt:

- **Aelodau Etholedig a Rheolwyr ALI**
- **Y Cyngor a chomisiynwyr y GIG**
- **Gweithwyr Iechyd Proffesiynol**
- **Defnyddwyr, Gofalwyr ac Eiriolaeth**
- **Safbwyt y Defnyddiwr a'r Gofalwr**
- **Darparwyr Gofal Cymdeithasol**
- **Darparwyr Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth**
- **Cymunedau a Chymdogaethau**
- **Gofal cymdeithasol a ariennir gan gynghorau**
- **Arolygwyr a Rheoleiddwyr**

Rôl Aelodau Etholedig ac Uwch Swyddogion Awdurdodau Lleol

- i) Sicrhau bod gan bob dinesydd fynediad parod i Wybodaeth, Cyngor a Chymorth sy'n rhoi iddynt yr hyder mae ei angen i reoli, cyn belled â phosibl, eu materion eu hunain, ac uchafu eu hannibyniaeth a'u llesiant
- ii) Gweithredu'n arweinwyr, er mwyn ymgysylltu a gweithio gyda phartneriaid mewn awdurdodau lleol o amrediad o wasanaethau, sydd â rhan i'w chwarae wrth drefnu ar gyfer cynhwysiant, llesiant ac uchafu annibyniaeth (e.e. cynllunio, hamdden, iechyd y cyhoedd, trafnidiaeth, manwerthu, mannau gwerthu bwyd)
- iii) Hoelio'r ffocws ar ganlyniadau mewn unrhyw weithgarwch comisiynu
- iv) Cydweithio â darparwyr gwasanaethau i'w hail-ddylunio a'u gweddnewid gan uchafu annibyniaeth i unigolion a gwerth am arian (pwy bynnag sy'n talu)

v) Buddsoddi yn y gwasanaethau hynny sydd wedi eu profi fel y rhai gorau i uchafu annibyniaeth, er mwyn sicrhau eu bod yn cyrraedd y sawl sydd eu hangen fwyaf

vi) defnyddio'n llai wasanaethau sy'n peri i bobl ddibynnu'n ddiangen arnyn nhw neu sy'n methu â hyrwyddo parch fel y bydd modd cyfleo'r delfryd newydd mewn modd agored a thryloyw i'r cyhoedd a'r rhai sy'n dibynnu ar y ddarpariaeth bresennol

vii) cyflwyno Fframwaith Gwladol y Deilliannau Lles fydd yn mesur yr hyn sydd wedi'i gyflawni ac yn nodi'r hyn sydd i'w wella ynghyd â gwerthuso effeithiau ar wasanaethau.

| | | | | | | | | | |
|----------------------------|-------------------------------------|---|---|-------------------------------------|------------------------------------|--|------------------------------|--|-----------------------------|
| CYNRYCHIOLWYR ETHOLEDIG | Y CYNGOR A CHOMISIYNWYR Y GIG | DEFNYDDWYR / GOFALWYR AC EIRIOLAETH | SAFBWYNT Y DEFNYDDIWR A'R GOFALWR | GWEITHWYR IECHYD PROFFESIYNOL | DARPARWYR GOFAL CYMDEITHASOL | DARPARWYR GWYBODAETH, CYNGOR A CHYMORTH | CYMONEDAU A CHYMDOGAETHAU | GOFAL CYMDEITHASOL A ARIENNIR GAN GYNGHORAU | AROLYGWYR A RHEOLEIDDWYR |
|----------------------------|-------------------------------------|---|---|-------------------------------------|------------------------------------|--|------------------------------|--|-----------------------------|

Mae angen i'r Cyngor a chomisiynwyr y GIG

- i) sicrhau bod gan bob dinesydd fynediad rhwydd i wybodaeth, cyngor a chymorth sy'n rhoi iddynt yr hyder mae ei angen i reoli eu materion eu hun, cyn belled â phosibl, ac uchafu eu hannibyniaeth a'u llesiant
- ii) ceisio defnyddio'r holl ddulliau dylanwadu sydd gan eu sefydliadau gyda'r sawl ym mhob sector sydd â rhan i'w chwarae wrth drefnu ar gyfer cynhwysiant, llesiant ac uchafu annibyniaeth (e.e. trafnidiaeth, manwerthu, mannau gwerthu bwyd)
- iii) hoelio sylw ar ganlyniadau yn eu gweithgareddau comisiynu
- iv) gweithio'n gydwethredol gyda darparwyr gwasanaethau at ddibenion ail-ddylunio a gweddnewid a fydd yn uchafu annibyniaeth i

unigolion a gwerth am arian (pwy bynnag sy'n talu)

v) buddsoddi yn y gwasanaethau hynny sydd wedi eu profi fel y rhai gorau i uchafu annibyniaeth, er mwyn sicrhau eu bod yn cyrraedd y sawl sydd eu hangen fwyaf

vi) defnyddio'n llai wasanaethau sy'n peri i bobl ddibynnu'n ddiangen arnyn nhw neu sy'n methu â hyrwyddo parch

vii) ei gwneud yn ofynnol i unrhyw wasanaethau a ariennir werthuso eu heffaith fel rhan o'r drefn a dysgu oddi wrth hynny ac addasu'r hyn maent yn ei wneud, gan ddefnyddio mesurau canlyniadau llesiant cyn belled â phosibl.

Rôl gwasanaethau Defnyddwyr/ gofalwyr ac Eiriolaeth yw

- i) Annog pobl i gymryd rheolaeth dros eu llesiant eu hunain a chyfrifoldeb dros ei gyflawni, gan aros yn annibynnol a chyfrannu at y gymuned
- ii) Cyfeirio ymlaen i wasanaethau cymdeithasol lle bydd angen sgiliau neu allu gwahanol o bosibl, ond ni fydd yn creu'r disgwyliad y darperir unrhyw wasanaethau penodol - yn hytrach y caiff digon ei wneud i'w galluogi i gyflawni llesiant parhaus
- iii) Ceisio sicrhau bod unigolion yn derbyn yr wybodaeth, y cyngor a'r cymorth mae arnynt eu hangen a mynediad i wasanaethau cyffredinol neu bwrpasol sydd ar gael yn y gymuned ac i ofal a chefnogaeth a reolir gan y cyngor lle byddant yn bodloni'r meinu prawf cymhwyster
- iv) Canolbwyntio bob tro ar y canlyniadau mae ar bobl eu heisiau a sut orau mae eu cyflawni
- v) Bod yn effro i unrhyw arwyddion pryderon neu amheuon am ddiogelu o ran gallu meddyliol, archwilio'r rhain a lle awgrymir hynny, cyfeirio ymlaen i wasanaethau cymdeithasol



Safbwyt y defnyddiwr

Rhwystro...

Arferion i'w hosgoi

Creu dibyniaeth a gwendid trwy roi grym a rheolaeth i sefydliadau.

Asesu diffygion ac anghenion pobl yn ôl meini prawf a chyllidebau i gynnig gwasanaethau penodol.

Yr hyn mae rhaid ei ofyn

Beth yw diben cymorth cymdeithasol?



Galluogi...

Arferion i'w mabwysiadu

Gweithio ar y cyd i wneud y gorau o bosibiliadau a chryfderau pobl trwy ddod o hyd i atebion creadigol fydd yn hybu annibyniaeth, dewis a rheolaeth pobl a'u cyfle i gyfrannu i'r gymdeithas.

Agwedd sy'n dweud:

- Rwy'n rymusach na chi.
- A chithau'n broblem, fy swydd i yw'ch datrys.
- Edrychaf arnoch chi a meddwl am yr arian.

Beth yw profiad y dinasyddion o gymorth cymdeithasol?



Agwedd sy'n dweud:

- Rwy'n rhan o'r ymdrech i'ch helpu i nodi'ch cryfderau a meithrin eich rhwydwaith cymorth eich hun.
- Chi'r dinesydd sy'n arwain a ni'r sefydliad a'r dinesydd fel ei gilydd sy'n rhannu'r cyfrifoldeb.

Rhwystro...

Arferion i'w hosgoi

Gwasanaethau anhyblyg, amhersonol a biwrocrataidd mae darparwyr yn eu harwain ac mae proffesiynolion yn eu rheoli.

Trefnu gwasanaethau sy'n gweddu i'r darparwyr. Bydd gwahanol bobl (sydd ar ei hôl hi, yn aml) yn galw heibio am 15 munud. Bydd rhywun yn fy rhoi yn y gwely am 8.00 wedyn.

Llunio gwasanaethau i'ch helpu i godi yn y bore, a dyna'r cwbl.



Yr hyn mae rhaid ei ofyn

Sut byddwn ni'n trefnu cymorth cymdeithasol i chi?

Galluogi...

Arferion i'w mabwysiadu

Cymorth hyblyg i'w gynhyrchu ar y cyd yn y gymuned, lle bydd dinasyddion yn ei gyfarwyddo a bydd y grym yn cael ei rannu.

Bydd dinasyddion yn gweithio ar y cyd fel y bydd pobl yn cael eu gwobrwyd am helpu i ddiwallu eu hanghenion nhw a rhai pobl eraill yn hytrach na bod yn ddibynnol ar wasanaethau. Felly, bydd gwasanaethau cyhoeddus yn elwa ar fedrau ac asedion pobl sy'n ymwneud â nhw, ynghyd â'r arian sydd ar gael iddyn nhw.

Dyma enghraifft:
www.time2meet.org.uk

Rwy'n rheoli fy nhrefniadau cymorth yn llawn.

Cymorth i'ch helpu chi i wneud popeth ar ôl ichi godi bob bore.

Rhwystro...

Arferion i'w hosgoi

Proffesiynolion sy'n penderfynu ar bob mater yn ôl asesiad a meini prawf er mwyn cadw pobl yn ddiogel a diwallu anghenion y sefydliad heb fentro fel y bo'n briodol.

Dim ond y bobl sydd wedi'u hasesu'n rhai ac arnyn nhw 'anghenion difrifol neu sylweddol' gaiff gymorth.

Sefydliadau ddylai gadw'r grym am eu bod yn gyfrifol am y cyfan.

"Gallwch chi weld nad yw'n llwyddo am fod angen i'm cludo i ganolfan oriau dydd lle byddwch chi'n fy nghadw'n ddiogel er na fydda i'n cynhyrchu dim nac yn gwneud dim byd diddorol."

Yr hyn mae rhaid ei ofyn

Beth yw'r rhesymau a'r prosesau iawn ar gyfer dod i benderfyniad?



Galluogi...

Arferion i'w mabwysiadu

Bydd proffesiynolion yn holi pobl pa fath o fywyd hoffen nhw a beth sydd i'w newid er mwyn i hynny ddigwydd.

Bydd cymorth ataliol ar gyfer hybu lles unigolion fel na fydd angen gwasanaeth ffurfiol arnyn nhw.

Unigolion fydd yn cadw llygad ar eu penderfyniadau eu hunain a mudiadau pobl anabl fydd yn cadw llygad ar y penderfyniadau ehangach.

"Gallwch chi weld ei fod yn llwyddo am fy mod wedi ysgwyddo cyfrifoldeb ac yn rhannu'r risgiau."

Rhwystro...

Arferion i'w hosgoi

Yn y drefn bresennol, rydyn ni'n diffinio llwyddiant trwy fesur faint mae darparwyr yn ei wneud.

Proffesiynolion sy'n pennu'r deilliannau ac mae dulliau mesur yn dangos i ryw raddau beth mae gwasanaethau yn ei wneud.

Yr hyn mae rhaid ei ofyn

Sut byddwn ni'n rheoli'r hyn sydd i'w gyflawni?



Galluogi...

Arferion i'w mabwysiadu

Llwyddiant yw cyflawni'r hyn sydd o bwys i bobl dros gyfnod penodol.

Mesur llwyddiant trwy hel straeon, nid dim ond trwy gyfrif pethau.

Prif nodwedd llwyddiant yw na fydd cymaint o alw am wasanaethau ffurfiol.

Wedi'i llunio gan Anabledd Cymru, Llywodraeth Cymru, Plant yng Nghymru, Cyngor Sir y Fflint, Cwmni Buddiannau Cymunedol Barod, Vanguard Consulting Wales Ltd, Consortiwym Bywydau Cymunedol a Chanolfan Dewis er Byw'n Annibynnol. 12fed Chwefror 2014

Rôl Gweithwyr Iechyd Proffesiynol yw

- i) annog pobl i ysgwyddo cyfrifoldeb am eu hiechyd nhw a chydnabod sut y dylen nhw ofalu'n ddoeth am eu iechyd a'u lles a chyfrannu at fywydau eu cymunedau nhw
- ii) darparu Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth a fydd yn helpu pobl i gadw mor iach, gweithgar, ymglymedig ac annibynnol â phosibl
- iii) camu i mewn yn effeithiol ac yn amserol (gwasanaethau eilaidd megis gofal traed, clywedeg, gallu dal dŵr, clinigau cof sy'n hanfodol i gynnal cymaint o annibyniaeth ag y bo modd)
- iv) eu hanfon i'r gwasanaethau cymdeithasol lle gallai fod angen eu medrau a'u galluoedd (heb greu disgwyl y bydd gwasanaethau penodol ar gael ond, yn hytrach, hyrwyddo cydraddoldeb rhwng y rhai

sy'n rhoi'r gwasanaethau a'r rhai sy'n eu defnyddio)

v) lle mae caniatâd, rhoi gwybodaeth ac unrhyw asesiad y gallai fod ei angen ar broffesiynolion a gwasanaethau er deilliannau y bydd cleifion yn eu gwerthfawrogi

vi) bod yn effro i unrhyw arwyddion pryderon neu amheuon am ddiogelu o ran gallu meddyliol, yn archwilio'r rhain a lle awgrymir hynny, yn cyfeirio ymlaen i wasanaethau cymdeithasol

| | | | | | | | | | |
|----------------------------|-------------------------------------|---|---|-------------------------------------|------------------------------------|--|------------------------------|--|-----------------------------|
| CYNRYCHIOLWYR ETHOLEDIG | Y CYNGOR A CHOMISIYNWYR Y GIG | DEFNYDDWYR / GOFALWYR AC EIRIOLAETH | SAFBWYNT Y DEFNYDDIWR A'R GOFALWR | GWEITHWYR IECHYD PROFFESIYNOL | DARPARWYR GOFAL CYMDEITHASOL | DARPARWYR GWYBODAETH, CYNGOR A CHYMORTH | CYMONEDAU A CHYMDOGAETHAU | GOFAL CYMDEITHASOL A ARIENNIR GAN GYNGHORAU | AROLYGWYR A RHEOLEIDDWYR |
|----------------------------|-------------------------------------|---|---|-------------------------------------|------------------------------------|--|------------------------------|--|-----------------------------|

Rôl Darparwyr gofal cymdeithasol yw

- i) strwythuro eu gwasanaethau i uchafu annibyniaeth, gan fanteisio ar y dystiolaeth orau sydd ar gael o'r hyn sy'n gweithio
- ii) gweithio'n gydweithredol gyda chomisiynwyr at ddibenion ail-ddylunio a gweddnewid a fydd yn uchafu annibyniaeth i unigolion a gwerth am arian (pwy bynnag sy'n talu)
- iii) adolygu pob ymyrraeth a chynllun gofal yn rheolaidd a rhybuddio comisiynwyr am unrhyw newidiadau y dylent neu mae angen iddynt fod yn ymwybodol ohonynt
- iv) dibynnu'n llai ar wasanaethau neu eu diddymu lle nad oes eu hangen mwyach neu lle maen nhw'n amharu ar annibyniaeth
- v) sicrhau urddas, dewis a pharch i'r sawl sydd leiaf abl i gynnal eu hannibyniaeth eu hunain
- vi) bod yn effro i unrhyw arwyddion pryderon neu amheuon am ddiogelu o ran gallu meddyliol, yn archwilio'r rhain a lle awgrymir hynny, yn cyfeirio ymlaen i wasanaethau cymdeithasol
- vii) gwerthuso effaith y gwasanaethau maent yn eu darparu, dysgu o hynny, ac addasu'r hyn maent yn ei wneud, gan ddefnyddio mesurau canlyniadau llesiant cyn belled â phosibl

MYNEGAI

| | | | | | | | | | |
|----------------------------|-------------------------------------|---|---|-------------------------------------|------------------------------------|--|------------------------------|---|-----------------------------|
| CYNRYCHIOLWYR ETHOLEDIG | Y CYNGOR A CHOMISIYNWYR Y GIG | DEFNYDDWYR / GOFALWYR AC EIRIOLAETH | SAFBWYNT Y DEFNYDDIWR A'R GOFALWR | GWEITHWYR IECHYD PROFFESIYNOL | DARPARWYR GOFAL CYMDEITHASOL | DARPARWYR GWYBODAETH, CYNGOR A CHYMORTH | CYMONEDAU A CHYMDOGAETHAU | GOFAL CYMDEITHASOL A ARIENNIR GAN GYNHORAU | AROLYGWYR A RHEOLEIDDWYR |
|----------------------------|-------------------------------------|---|---|-------------------------------------|------------------------------------|--|------------------------------|---|-----------------------------|

Rôl Darparwyr Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth yw

- i) defnyddio sgiliau ac ymddygiadau (cwrteisi, parch, gwrando'n astud, egluro, ysgogi) a fydd yn ennyn diddordeb pobl mewn dod o hyd i'w ffordd orau eu hun tuag at lesiant
- ii) mynnu'r wybodaeth (neu wybod ble i ddysgu) sut gall pobl gysylltu â'u cymunedau naturiol, cyfrannu eu sgiliau a'u gallu ac uchafu eu hannibyniaeth – trwy weithgareddau a gwasanaethau sydd ar gael yn gyffredinol ym mhob sector, trwy wasanaethau pwrpasol a thrwy ddefnydd ymyriadau ataliol yn ogystal â thrwy gymhwyster am ofal cymdeithasol a drefnir gan awdurdod lleol
- iii) strwythuro eu sgyrsiau i ddod i gytundeb ar a) ba ganlyniadau mae'r person yn dymuno neu angen eu cyflawni, b) pa gamau mae angen eu

cymryd i wneud hynny, c) pa gamau pellach byddant yn eu cymryd, os oes rhai, byddant yn eu cymryd ac yn ôl pa amserlen

- iv) darparu cymaint o gymorth ag y mae ei angen ar bobl i gyflawni llesiant a/neu gael y gofal cymdeithasol/cefnogaeth mae arnynt eu hangen, ond dim mwy na hynny - gan adael pobl mewn rheolaeth dros eu materion eu hun cyn belled â phosibl
- v) bod yn glir ar ddiwedd unrhyw gysylltiad pa ôl-gamau a gaiff eu cymryd os bydd rhai – gan naill ai sicrhau bod y person yn gwybod sut i ail-gysylltu neu ymrwymo i fod mewn cysylltiad ar ôl y cyfnod priodol i adolygu cynydd a /neu werthuso effeithiolrwydd eu camau eu hun ac unrhyw ymyrraeth sy'n cael ei hargymhell

MYNEGAI

| | | | | | | | | | |
|----------------------------|-------------------------------------|--|---|-------------------------------------|------------------------------------|--|------------------------------|--|-----------------------------|
| CYNRYCHIOLWYR ETHOLEDIG | Y CYNGOR A CHOMISIYNWYR Y GIG | DEFNYDDWYR / GOFALWYR AC EIRIO LAETH | SAFBWYNT Y DEFNYDDIWR A'R GOFALWR | GWEITHWYR IECHYD PROFFESIYNOL | DARPARWYR GOFAL CYMDEITHASOL | DARPARWYR GWYBODAETH, CYNGOR A CHYMORTH | CYMONEDAU A CHYMDOGAETHAU | GOFAL CYMDEITHASOL A ARIENNIR GAN GYNGHORAU | AROLYGWYR A RHEOLEIDDWYR |
|----------------------------|-------------------------------------|--|---|-------------------------------------|------------------------------------|--|------------------------------|--|-----------------------------|

vi) bod yn effro i unrhyw arwyddion pryderon neu amheuon am ddiogelu o ran gallu meddyliol, yn archwilio'r rhain a lle awgrymir hynny, yn cyfeirio ymlaen i wasanaethau cymdeithasol.

vii) gwerthuso eu heffaith gan ddefnyddio mesurau canlyniadau cyn belled â phosibl e.e. efallai y byddant yn holi sampl o'u cysylltiadau (1 o bob 10 efallai) drwy alwad ffôn ar ôl 6 wythnos i ofyn:

- oedd ein hymateb ni'n brydlon ac yn gwrtais?
- oedd hi'n ddefnyddiol i chi?
- oeddem ni'n glir am y canlyniadau roeddech chi'n ceisio eu cyflawni?
- ar raddfa 1-10, i ba raddau wnaethom ni helpu i gyflawni'r canlyniadau hyn, yn eich barn chi?
- oes unrhyw beth arall gallwn ni ei wneud i helpu?
- ydych chi'n gwybod sut i gael gafael ar y cymorth mae arnoch chi ei angen pe bai'ch amgylchiadau'n newid yn y dyfodol?



Rôl Sefydliadau Cymunedol a Chymdogaethol yw

- i) mynd ati i gynnwys pobl a allai gael eu heithrio oherwydd afiechyd, anabledd, llesgedd neu ddiffyg hyder
- ii) eu hannog i fod mor weithgar â phosibl ac ysgwyddo cyfrifoldebau
- iii) rhoi cyngor cadarn am fyw yn iach a diogelu
- iv) trefnu gweithgareddau a fydd yn meithrin iechyd da a llesiant
- v) darparu Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth a fydd yn helpu pobl i gadw mor iach, gweithgar, ymglymedig ac annibynnol â phosibl
- vi) cyfeirio ymlaen i wasanaethau cymdeithasol lle bo angen eu sgiliau neu allu gwahanol o bosibl, ond ni fyddant yn creu disgwyliad y caiff gwasanaethau penodol eu darparu – yn hytrach y bydd digon yn cael ei wneud i'w galluogi i gyflawni llesiant parhaus
- vii) bod yn effro i unrhyw arwyddion pryderon neu amheuon am ddiogelu o ran gallu meddyliol, yn archwilio'r rhain a lle awgrymir hynny, yn cyfeirio ymlaen i wasanaethau cymdeithasol
- vii) ystyried dewisiadau megis mentrau cymdeithasol a chydweithredfeydd.

Rôl gofal cymdeithasol a ariennir gan y Cyngor yw

- i) dechrau bob tro drwy sefydlu pa ganlyniadau mae'r unigolyn yn ceisio eu cyflawni
- ii) siarad yn eglur o'r dechrau am faint o arian y bydd angen i bobl ei gyfrannu
- iii) archwilio gyda hwy i ba raddau gallent gyflawni'r canlyniadau hynny drostynt eu hunain, gyda mantais gwybodaeth, cyngor a chymorth a thrwy ddefnydd gwasanaethau cyffredinol a phwrpasol ac ymyriadau ataliol sydd ar gael, gan gynnwys cymorth y teulu, ffrindiau a chymdogion
- iv) sefydlu a allai eu hanghenion, neu eu diffyg gallu i'w cyflawni, olygu bod ganddynt hawl i dderbyn gofal a chefnogaeth a reolir gan y cyngor (gan gynnwys drwy dalu'n uniongyrchol), ac os felly, cymhwys o'r profion cymhwyster statudol
- v) nodi'n glir yn ysgrifenedig at yr unigolyn yn union beth sydd wedi cael ei gytuno ynghylch canlyniadau, anghenion, cymhwyster, camau ac ôl-gamau
- vi) annog a chynorthwyo'r sawl sy'n gymwys i dderbyn gofal a chefnogaeth a reolir i fanteisio ar daliadau uniongyrchol lle bynnag y bo modd

Rôl Arolygwyr a Rheoleiddwyr yw

- i) sicrhau bod y mesurau a'r safonau maent yn eu defnyddio yn adlewyrchu'n llawn hanfodion yr ymagwedd newydd hon at sut mae dinasyddion yn cael eu helpu
- ii) disgwyl i sefydliadau werthuso ac adrodd ar eu perfformiad eu hun, gan ddefnyddio mesurau llesiant ac ansawdd (yn hytrach na phroses) lle bynnag y bo'n bosibl
- iii) darparu sianel annibynnol am adborth defnyddwyr am wasanaethau, sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau unigolion ac ansawdd eu profiad
- iv) cydweithredu â rheoleiddwyr eraill i leihau dyblygu, sicrhau cysondeb, ac uchafu effeithiolrwydd

